Taith Gerdded Bywyd Gwyllt Glan yr Afon

Cymerwch ofal wrth groesi ffyrdd ac yn agos i'r afon. Dylid cadw cŵn o dan reolaeth gaeth.

Hygyrchedd: Yn anffodus nid yw'r daith hon yn addas i gadeiriau olwyn gan fod y llwybr ar hyd glan yr afon yn anwastad a gall fod yn lleidiog mewn mannau.

Llwybr y daith bywyd gwyllt

100 llathenni
100 metrau

Gwennol y glennydd



I gael mwy o wybodaeth am y dref a theithiau cerdded eraill i'w mwynhau o gwmpas yr ardal edrychwch ar ein gwefan www.rhayader.co.uk

I gael gwybod mwy am ein bywyd gwyllt, gan gynnwys pethau a welwyd yn ddiweddar, ewch i wefan y gymdeithas natur leol www.rhayaderbynature.wordpress.com

Produced by Rhayader 2000 Ltd
Assisted by Rhayader by Nature

Rhayader by Nature

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

Design and illustration:
www.bethknightillustration.co.uk
Printed by IMPRINT (01686 624137)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

Powys

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Rhaeadr Gwy - Rhayader

The Wildlife Centre of Wales — Canolfan Byd Natur Cymru

Teithiau Cerdded Byd Natur Tref Rhaeadr Gwy

Mae yna amrywiaeth ryfeddol o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt yn byw ymysg adeiladau, parciau a gerddi tref Rhaeadr. Mae afon Gwy, sy'n llifo'n gyflym ac yn llawn clogfeini, yn mynd trwy'r dref gan gynnig coridor naturiol pwysig iawn y mae bywyd gwyllt yn teithio ar hyd-ddo, gan gyfoethogi'r dref er mwynhad pawb. Mae'r teithiau cerdded yn y gyfres hon o daflenni yn edrych ar amrywiaeth a harddwch y bywyd gwyllt ar ein trothwy.



Taith Gerdded Bywyd Gwyllt Glan yr Afon

Taith gylchol o faes parcio'r Clwb Rygbi ar ben Lôn Ddŵr oddi ar Stryd y Bont (gweler y map). Mae'r daith yn dilyn glan yr afon gyda meinciau picnic ar hyd y ffordd ac yn dod yn ôl heibio i gloc canol y dref. 1 filltir / 1.5 cilometr yw'r pellter ac mae'n cymryd rhyw awr i fwynhau'r daith.

Po fwyaf y byddwch yn aros, edrych a gwrando, mwyaf y byddwch yn ei weld!